HANES

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Hanes y gallu i:

- Ddangos meistrolaeth o gorff sylweddol o wybodaeth hanesyddol.
- Deall sut mae pobl wedi bodoli, ymddwyn a meddwl yng nghyd-destun y gorffennol.
- Darllen a defnyddio testunau a deunyddiau ffynonellau eraill yn feirniadol a chydag empathi.
- Gwerthfawrogi cymhlethdod ac amrywiaeth sefyllfaoedd, digwyddiadau a meddylfryd y gorffennol.
- Cydnabod bod yna ffyrdd o brofi datganiadau a bod yna reolau ynghylch tystiolaeth sy'n gofyn am unplygrwydd ac aeddfedrwydd.
- Myfyrio'n feirniadol ar natur a sylfeini damcaniaethol y ddisgyblaeth.
- Trefnu dadl, bod yn hunanddisgybledig ac annibynnol yn ddeallusol.
- Mynegi'ch hun ar lafar ac yn ysgrifenedig yn gydlynol, yn eglur ac yn rhugl.
- Casglu, trefnu a defnyddio tystiolaeth, data a gwybodaeth.
- Dadansoddi a datrys problemau.
- Defnyddio sgiliau TGCh, adalw gwybodaeth a chyflwyno yn effeithiol.
- Ymarfer hunanddisgyblaeth, hunangyfeirio a blaengaredd.
- Cydweithio ag eraill a pharchu safbwyntiau rhesymegol eraill.
- Cydweithio a chyfrannu'n effeithiol mewn trafodaeth grwp.
- Dangos empathi a dealltwriaeth llawn dychymyg.

Trosolwg o Hanes

Cydgrynhoad a chontinwwm o ddigwyddiadau sy'n digwydd yn olynol, yn arwain o'r gorffennol i'r presennol a hyd yn oed i'r dyfodol yw Hanes. Mae'n ddisgyblaeth sy'n cofnodi a dehongli digwyddiadau'r gorffennol sy'n ymwneud â phobl a'u hymgais i drefnu bywyd yn faterol ac yn gysyniadol, yn unigol ac ar y cyd. Mae Hanes yn cynnwys sawl amrywiaeth, gyda phob un a'i ganolbwynt arbennig a'i bwyslais damcaniaethol (er enghraifft hanes economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, diwylliannol, amgylcheddol, hanes menywod a'r ddau ryw).

Mae darllen, trafod ac ysgrifennu ac ymgysylltu, archwilio a darganfod yn hanfodol. Mae angen i fyfyrwyr ddeall problemau cynhenid yn y cofnod hanesyddol, gallu ymdopi ag amrywiaeth o safbwyntiau, gwerthfawrogi'r amrywiaeth o broblemau sydd ynghlwm â dehongli deunydd cymhleth, amwys, sy'n gwrthdaro ac sy'n anghyflawn yn aml, a gallu deall cyfyngiadau gwybodaeth a pheryglon eglurhad gor-syml.

Mae unigolion sydd wedi graddio mewn Hanes yn hynod gyflogadwy gan eu bod yn datblygu'r nodweddion hynny y mae llawer o gyflogwyr yn chwilio amdanynt ac mae gradd mewn hanes yn agor drysau i amrywiaeth eang o yrfaoedd mewn busnes, yn yr eglwys, y gwasanaeth sifil, gwasanaethau diplomyddol, addysgu, cysylltiadau cyhoeddus, gwleidyddiaeth, llenyddiaeth a'r celfyddydau, y gyfraith, technoleg gwybodaeth ac ati. Mae llawer o haneswyr yn dringo i'r brig yn eu gyrfa.

Ffynhonnell: CIHE 2006